# Troi ceffylau allan a’u cynnal mewn ardal bori

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys troi ceffylau allan a'u cynnal mewn ardal bori a gwirio ceffylau a thir fel mater o drefn. Mae hefyd yn cynnwys dal ceffyl ar dir pori.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. gwirio fel mater o drefn bod y tir, ffiniau, gatiau ac unrhyw loches yn addas ac yn ddiogel a hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw broblemau, yn cynnwys ar lafar neu'n ysgrifenedig
3. gwirio bod cyflenwad digonol o ddŵr glân ar gael
4. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
5. dewis a gosod offer os oes angen cyn arwain y ceffylau i'r ardal bori
6. troi'r ceffylau allan i'r ardal bori yn unol â'r cyfarwyddiadau
7. cynnal ceffylau trwy wirio eu hymddygiad a'u cyflwr, fel y bo'n briodol
8. cymryd y camau priodol i ddatrys unrhyw broblemau
9. dal ceffylau o'r ardal bori a dod â cheffylau i mewn yn unol â'r cyfarwyddiadau
10. cael eglurhad pan nad yw'r cyfarwyddiadau'n glir
11. cyfathrebu gydag eraill a chynnal gwaith tîm effeithiol
12. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am  offer amddiffynnol personol
2. y peryglon posibl a allai ddigwydd wrth symud, troi ceffylau allan a'u dal
3. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen a pherygl i chi eich hun ac i eraill
4. dulliau o droi ceffylau allan i ardaloedd pori rheolaidd a newydd
5. pa mor aml i wirio'r ceffyl, y cae a'r dwr yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn a'r tywydd
6. y mathau o gofnodion sydd eu hangen a phwysigrwydd cadw cofnodion cywir
7. sut i gyflwyno ceffyl newydd i grwp sydd wedi ei sefydlu
8. ymddygiad grŵp ceffylau
9. peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y gellir lleihau'r peryglon hyn
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol.

## Cwmpas/Ystod

Cynnal ceffylau ar dir pori:

- yn ystod yr haf
- yn ystod y gaeaf
- drwy'r flwyddyn

## Geirfa

Gallai'r ffiniau gynnwys:

- muriau
- ffensys
- ffosydd
- gwrychoedd

Ymddygiad grŵp ceffylau:

- greddf naturiol
- gweithredoedd
- adweithiau

# Troi ceffylau allan a'u cynnal mewn ardal bori

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq209 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; glaswellt; cae; pori; tir; lles anifeiliaid |